

Tasg 1

Sea Empress

1. Ticiwch bob rhes i ddangos pa wybodaeth sy'n perthyn i ba ran o'r darn.
Mae un wedi'i wneud yn barod i chi.

Darn o wybodaeth	Y trychineb	Sefyllfa waeth?	Ers y trychineb
Chyrhaeddodd yr olew ddim o Ynys Sgomer.		✓	
Costiodd hi hyd at £38 miliwn i lanhau'r olew a thalu iawndal.			
Mae cyfrifiaduron yn gallu rhoi mwy o wybodaeth am y llanw.			
Digwyddodd y trychineb cyn y tymor ymwelwyr.			
Bu farw tua 7 000 o adar.			
Gweithiodd y cyngor a gwirfoddolwyr yn galed i lanhau'r traethau cyn y Pasg.			
Aeth y Sea Empress yn sownd ar greigiau ar 15 Chwefror 1996.			
Bydd pobl yn ymateb yn gyflymach os bydd trychineb yn digwydd eto.			

2. Am faint o amser bu'r olew'n gollwng?
Ticiwch **un**.

15 Chwefror 1996

wythnos

mis Chwefror i gyd

hyd y Pasg

3. Dewiswch y gair gorau i orffen pob brawddeg.
Ticiwch **un** bob tro.

Roedd Trychineb y Sea Empress yn drychineb

- a. dymunol. naturiol. gan ddyn. hyfryd.

Erbyn heddiw, mae cyfrifiaduron yn rhoi gwybodaeth well am y

- b. llongau. pysgotwyr. creigiau. llanw.

Cafodd llawer o fannau eu glanhau cyn y tymor

- c. ymwelwyr. magu adar. hwylio. pysgota.

4. Pam mae **is-benawdau** yn y darn?
Ticiwch yr ateb **anghywir**.

Er mwyn i chi ddeall y wybodaeth yn well.

Er mwyn i chi wneud ymdrech i ddeall y darn.

Er mwyn i'r gwahanol rannau sefyll allan yn well.

Er mwyn trefnu'r wybodaeth yn well.

5. Tynnwch **bum** llinell i gysylltu'r ffigur â'r darn o wybodaeth gywir.

7 000

Dyma faint o olew a ollyngodd o'r
Sea Empress yn y trychineb.

£38 miliwn

Dyma'r nifer y parau o balod sy'n
magu ar Ynys Sgomer.

dros 120 000 tonnell fetrig

Dyma nifer yr adar a gafodd eu
glanhau.

72 000 tonnell fetrig

Costiodd hyn i lanhau'r arfordir a thalu
iawndal ar ôl y trychineb.

10 000

Os yw llong dros y maint hwn, rhaid
cael dau beilot ar ei bwrdd.

6. Dewiswch a chopiwch ddau air o'r darn sy'n golygu: pobl sy'n dod o fannau eraill i dreulio amser ar eu gwyliau.
- a)
- b)
7. Edrychwch ar y testun yn y bocs isod.
Tanlinellwch un ymadrodd sy'n golygu rhywbeth yn debyg i: drwy lwc, yn ffodus.

- Digwyddodd y trychineb ym mis Chwefror, felly roedd hi'n bosibl gwneud llawer o waith glanhau cyn i'r tymor ymwelwyr ddechrau adeg gwyliau'r Pasg. Gwnaeth y cyngor a gwirfoddolwyr ymdrech fawr mewn manau poblogaidd gyda thwristiaid, fel Dinbych-y-pysgod, Saundersfoot a Phentywyn.
- Diolch byth, chyrrhaeddodd yr olew ddim o'r gwarchodfeydd natur pwysig fel Ynys Sgomer. Ar Sgomer, mae 10 000 pâr o balod a dros 300 000 pâr o adar drycin Manaw yn dod i fagu rhai bach ym mis Mai.

8. **ei** neu **eu**? Defnyddiwch **ei** gyda geiriau unigol ac **eu** gyda geiriau lluosog.
Rhowch **ei** neu **eu** yn y bylchau hyn:

- a) Cafodd 7 000 o adar glanhau
- b) Cafodd llong y Sea Empress thynnu oddi ar y creigiau yn y diwedd.
- c) Cafodd llawer o arian roi i bysgotwyr achos eu bod wedi colli arian pysgota.
- ch) Cafodd olew ollwng o'r llong.
- d) Cafodd llawer o draethau glanhau cyn y tymor ymwelwyr.
- dd) Cafodd ynys Sgomer gwneud yn warchodfa natur yn 1959.

Ydy'r berfenw sy'n dilyn ei yn newid weithiau? Pam mae hyn, tybed?

9. Edrychwch ar y ddau air yma o'r darn: **purfa**, **gwarchodfa**
Ystyr **-fa** yw 'man'. Mae geiriau sy'n gorffen â **-fa** yn enwau benywaidd bob amser, felly byddan nhw'n treiglo'n feddal ar ôl 'y', a bydd ansoddair sy'n dod ar eu hôl yn treiglo'n feddal hefyd.
- purfa** = pur + -fa – man puro olew > **y burfa / y burfa fawr**
- gwarchodfa** = gwarchod + -fa – man gwarchod > **y warchodfa / y warchodfa bwysig**
- Rhowch gynnig ar y rhain. Maen nhw'n edrych yn llawer, ond fyddwch chi ddim yn hir!

Ystyr	Gair sy'n gorffen â -fa
1. Lle i lanio pethau.	
2. Man lle gallwch fynd allan.	
3. Lle i wneud campau, mae un ym mhob ysgol.	
4. Lle mae'r heddlu'n dal pobl ddrwg.	
5. Lle i storio pethau.	
6. Man lle mae pobl yn gwneud eu swydd.	
7. Man lle gallwch fynd i mewn.	
8. Lle i fagu, e.e. anifeiliaid, neu chwaraewyr rygbi.	
9. Lle i gadw trysor.	
10. Grisiau pren i gamu drostyn nhw, e.e. o un cae i'r llall.	
11. Man lle mae pobl wedi cael eu claddu.	
12. Man lle mae'r atom yn cael ei hollti i wneud ynni niwclear.	
13. Man lle mae fferyllydd yn gweithio.	
14. Man i fyw, neu i breswyllo ynddo.	
15. Man lle mae dŵr yn cael ei gronni.	

Beth yw lluosog geiriau **-fa**? Meddyliwch beth yw mwy nag un 'swyddfa'.

Nawr, rhowch y gair **-fa** cywir o'r tabl ym mhob un o'r brawddegau hyn. Efallai bydd angen ei dreiglo!

a) "Dewch allan o'r _____, blant!" gwaeddodd yr athro chwaraeon.

b) Mae'r lladron yn y _____ ar hyn o bryd.

c) Mae Llanelli wedi bod yn _____ i chwaraewyr rygbi rhyngwladol.

ch) Mae fy mam yn gweithio mewn _____ yn y dref.

d) Daeth y cwch yn agos at y _____, a neidiodd y pysgotwr allan.

dd) Mae rhai pobl yn erbyn codi ail _____ niwclear ar Ynys Môn.

e) Roedd yr archeolegwyr wrth eu boddau pan ddaethon nhw o hyd i'r _____ o'r Oes Efydd.

f) Wyt ti wedi gweld y llyfr sy'n cynnwys rhai o ddarnau gorau (cliw: trysorau) gwaith T. Llew Jones? Ei enw yw _____ T. Llew Jones.

10. Gwyliwch ddwy funud gyntaf y darn hwn o fideo. Cewch weld y Sea Empress ar y creigiau, a hefyd cewch glywed barn David Bray, pysgotwr lleol.

<https://www.youtube.com/watch?v=xkHModCx5c>

Beth sy'n creu mwy o effaith? Gweld y fideo neu ddarllen y ffeithiau moel sydd yn y darn? Rhowch resymau dros eich barn.

Ysgrifennwch rai llinellau yn Gymraeg am yr hyn welsoch chi ar y fideo yn Saesneg.